

ENWEBIADAU AM GYMRODORIAETHAU ER ANRHYDEDD A GRADDAU ER ANRHYDEDD

Bob blwyddyn, mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod unigolion nodedig, yn draddodiadol trwy gyflwyno iddynt Gymrodoriaethau neu Raddau er Anrhydedd. Mae Rhestr y Cymrodyr a'r rhai sydd wedi derbyn Graddau er Anrhydedd i'w gweld ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/honorary-awards/>.

Yn ei gyfarfod bob hydref, bydd y Grŵp Gwobrau er Anrhydedd yn ystyried yr enwebiadau a dderbyniwyd ac yn gwneud argymhellion priodol i Senedd a Chyngor y Brifysgol.

MEINI PRAWF

Wrth ystyried yr enwebiadau, bydd y Grŵp yn rhoi sylw priodol i'r meini prawf canlynol:

Cymrodyr Anrhydeddus

Cymrodoriaethau Anrhydeddus yw'r prif ddull Prifysgol Aberystwyth o anrhydeddu unigolion, ac fe gaiff y rhain eu dyfarnu i anrhydeddu unigolion sydd, neu a fu, â chysylltiad ag Aberystwyth neu â Chymru yn gyffredinol, ac a wnaeth gyfraniad eithriadol yn eu dewis faes. Disgwylir i'r rhai sy'n derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd i sefydlu perthynas barhaus â'r Brifysgol ac fe'u gwahoddir i Ginio Blynyddol y Cymrodyr.

Doethuriaeth *honoris causa*

Gellir dyfarnu gradd Doethuriaeth er Anrhydedd i rai sydd wedi bod yn eithriadol llwyddiannus yn eu maes, neu sydd â hanes hir o ymchwil a chyhoeddiadau clodwiw.

Baqlor yn y Celfyddydau *honoris causa* a Baqlor yn y Gwyddorau *honoris causa*

Gellir dyfarnu gradd Baqlor er Anrhydedd i unigolion sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- a. aelod o staff Prifysgol Aberystwyth heb radd lefel-mynediad i gydnabod gwasanaeth hir, cyfraniad ac ymroddiad i'r Sefydliad; ac
- b. aelodau o'r gymuned leol a wnaeth gyfraniad sylweddol i Aberystwyth a'r cyffiniau.

CYMWYSEDD

Wrth gyflwyno dyfarniadau ychwanegol y gellir eu defnyddio i gydnabod unigolion o fri, cytunodd y Brifysgol hefyd y byddai, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn amhriodol i roi unrhyw un o'r dyfarniadau a restrwyd uchod i:

1. Wleidyddion mewn gwasanaeth, a rhai a gyflogir yn eu swyddfeydd; ac
2. Aelodau presennol ac wedi ymddeol o staff academaidd Aberystwyth, y gallai'r Brifysgol ddyfarnu anrhydeddau eraill iddynt.

Y DREFN

Y drefn isod a ddilynir wrth ystyried enwebiadau, ac mae'r broses i enwebu unigolion yr un fath i'r holl ddyfarniadau:

1. Dylid anfon enwebiadau am Gymrodoriaethau er Anrhydedd a Graddau er Anrhydedd at Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk) erbyn dyddiad penodol bob hydref.
2. Dylid defnyddio'r ffurflen atodedig i wneud pob enwebiad. Gofynnir i unigolion ddangos pa ffurf ar ddyfarniad y credant yw'r mwyaf priodol i'r sawl a enwebwyd, er nad yw'r Pwyllgor wedi'i gyfyngu gan yr ymateb a roddir. Pe byddai ar y Brifysgol angen rhagor o wybodaeth am y sawl a enwebwyd, bydd yn cysylltu â'r unigolyn a gyflwynodd yr enwebiad yn ôl yr angen.
3. Bydd enwebiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried gan y Grŵp Gwobrau er Anrhydedd yn yr hydref, ac anfonir argymhellion wedyn yn eu blaen i Senedd a Chyngor y Brifysgol.
4. Lle bydd y Grŵp yn dymuno hynny, gellir dal enwebiadau yn ôl i'w hystyried ymhellach ochr yn ochr â rhai a dderbynnir y flwyddyn ddilynol. Pe digwyddai hynny, ni fydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r unigolion sy'n cyflwyno'r enwebiad. Ni fydd unigolion yn cael eu hysbysu chwaith os nad yw'r Grŵp yn teimlo y gall fynd ag enwebiad yn ei flaen.
5. Ystyrir pob enwebiad yn gyfrinachol gan y Grŵp, y Senedd a'r Cyngor, ac ni ddylai'r rhai a enwebwyd fod yn ymwybodol eu bod wedi eu hystyried am ddyfarniad.
6. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo gan y Senedd a'r Cyngor, bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r rhai y cynigir dyfarniad iddynt a gwneir trefniadau iddynt eu derbyn, fel arfer yn y seremonïau gradd a gynhelir yn flynyddol ym mis Gorffennaf.

CYNGOR

Pe hoffech drafod enwebiad posibl yn anffurfiol cyn ei gyflwyno, mae croeso ichi fynd at yr Is-Ganghellor (Cadeirydd y Grŵp Gwobrau er Anrhydedd) neu Ysgrifennydd y Brifysgol (Clerc y Grŵp). Cysylltwch â Ysgrifennydd y Brifysgol, yn y lle cyntaf ar 01970 62 2114 neu ysgrifennydd@aber.ac.uk.